

ASTUDIAETHAU FFILM A THELEDU

Amser - 1.5 awr

Dylai'r ymgeiswyr ateb DAU gwestiwn

1. Mae'r rhai sy'n gwneud rhaglenni teledu yn symud y tu hwnt i ddarlledu traddodiadol i ddweud eu storïau ar draws aml lwyfannau. Trafodwch y datganiad hwn gan gyfeirio at o leiaf ddwy enghraifft o raglenni teledu sydd hefyd yn defnyddio llwyfannau eraill, megis gwefannau, blogiau a chyfryngau cymdeithasol, i ddenu sylw eu cynulleidfaoedd.
2. Astudiwch waith un cyfarwyddwr ffilm enwog, a thalu sylw manwl i'r dull neu nod personol o greu ffilm. Cyfeiriwch at nifer o ffilmiau gan yr un cyfarwyddwr yn eich ateb.
3. Yn y farchnad gystadleuol sydd ohoni heddiw, does dim lle i arbrofi yn y diwydiant ffilmiau. Trafodwch.
4. Cymharwch a chyferbynnu dwy ffilm a welsoch yn ddiweddar, a chlориannu a oeddent, yn eich barn chi, yn llwyddiannus ai peidio.
5. Trafodwch swyddogaeth 'trosleisio' wrth wneud ffilmiau dogfen. Rhowch enghreifftiau o un ffilm ddogfen o leiaf a wylloch.
6. Beth yw manteision ac anfanteision addasu nofel ar gyfer ffilm a/neu deledu? Trafodwch gan gyfeirio at o leiaf **DDAU addasiad**.
7. Cloriannwch y dulliau a ddefnyddir i greu ffilm arswyd gyffrous a dychrynlyd. Cyfeiriwch at o leiaf **DDWY ffilm**.